

Swansea University
Prifysgol Abertawe


# PRIFYSGOL ABERTAWE
# YR YSGOL REOLAETH
## Pecyn i Ymgeiswyr

# YNGLŶN Â PHRIFYSGOL ABERTAWE

## *UCHELGAIS, GWELEDIGAETH A PHWRPAS*

# PRIFYSGOL ABERTAWE

# AR FRIG Y DON ERS 1920



**Yr Abaty**
Adeilad hanesyddol trawiadol, gyda chyfoeth o fywyd gwyllt, yng nghanol Campws Singleton; un o'n dau gampws arobryn ar lan y môr

Mae Prifysgol Abertawe yn sefydliad a arweinir gan ymchwil sy'n ffynnu ar archwilio a darganfod. Rydym yn cynnig cydbwysedd hynod ddeniadol o addysgu ac ymchwil rhagorol, ynghyd ag ansawdd bywyd ardderchog ar ein dau gampws ar lan y môr.

A ninnau wedi dathlu ein canmlwyddiant yn 2020, rydym yn ymfalchïo'n fawr yng nghyfraniad ein Prifysgol at weddnewid Abertawe a'i gwneud yn ddinas rhagoriaeth.

Rydym wedi mwynhau cyfnod o dwf aruthrol, sydd wedi cael ei adlewyrchu yn y safonau uchaf o brofiad i'n myfyrwyr, gan fod yn wydn wrth addasu i dirweddau sy'n newid. Rydym yn arloesol o ran ein hymagwedd at addysgu a gweithrediadau, ac yn falch o'n cymuned gydweithredol o staff.

Ni yw'r Brifysgol Orau yng Nghymru ac rydym yn y 26ain safle yn y DU yn ôl The Guardian University Guide 2023. Hefyd, rydym yn y 15fed safle yn y DU am foddhad â'r cwrs. Mae myfyrwyr wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud, ac mae ein gwobr Prifysgol y Flwyddyn yng Ngwobrau Dewis Myfyrwyr What Uni 2019 yn dystiolaeth o hyn. Roeddem hefyd ar y brig yn y categori Rhyngwladol. Yng ngwobrau 2021, dyfarnwyd gwobr Arian i ni (2il safle) am Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac yng Ngwobrau StudentCrowd 2022 cawsom ein cynnwys ymysg yr 20 Brifysgol Orau yn y DU.

Mae 91% o'n hamgylchedd ymchwil yn cynhyrchu ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang ac sy'n ardderchog yn rhyngwladol, fel yr aseswyd yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021. Gwnaethom hefyd gyflawni ein safle gorau erioed yn nhablau Prifysgolion y Byd QS fesul pwnc yn 2023, gyda dau bwnc yn y 100 gorau a 16 yn y 250 gorau.

Cawsom ein cynnwys yn y 200 uchaf yn nhablau effaith Times Higher Education 2022, sy'n asesu effaith prifysgolion ar y gymdeithas, yn seiliedig ar lwyddiannau wrth gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig (SDGs). Cawsom ein cynnwys yn y rhestr o'r 20 sefydliad gorau'n fyd-eang am dri o'r nodau, gan amlygu ein cryfder ym meysydd Defnyddio a Chynhyrchu'n Gyfrifol (14eg), Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cryf (14eg) a Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy (18fed).

Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, amrywiaeth a chynhwysiant ac rydym wedi bod yn aelod balch o Siarter Athena SWAN ers 2008. Rydym yn ddeiliad Gwobr Sefydliadol Arian, sef y safon uchaf ar hyn o bryd a ddyfarnwyd i unrhyw brifysgol yn y DU, a ni oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i gyflawni hyn.

# EIN GWELEDIGAETH STRATEGOL

**Rhan annatod o'n llwyddiant yw ein gallu i ddarparu addysgu ac ymchwil rhagorol, yn ogystal ag ansawdd bywyd o'r radd flaenaf i'n staff a'n myfyrwyr.**




Rydym, a byddwn yn parhau'n Brifysgol egwyddorol, bwrpasol a gwydn sy'n cydbwyso addysgu rhagorol ag ymchwil ac arloesi sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang mewn amgylchedd agored sy'n galluogi ein myfyrwyr a'n cydweithwyr iragori.
Mae cydweithredwyr ledled y byd yn ein gwerthfawrogi fel partner y gallant ymddiried ynddo, ond rydym hefyd yn hollol ymrwymedig i'n rhanbarth ac yn falch o fod yn Brifysgol ar gyfer Cymru

***Gweddw crefft heb ei dawn/Technical skill is bereft without culture***

Yn ein hanfod, rydym yn sefydliad egwyddorol, pwrpasol a gwydn sy'n nodweddiadol am werthoedd, diwylliant ac ymddygiadau arbennig sydd wrth wraidd ac yn tanategu'r pum piler strategol allweddol:

**1. EIN CENHADAETH DDINESIG:**
Rydym yn falch o berthyn i Ddinas Abertawe a Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Gyda champysau yn ardaloedd tri awdurdod lleol, rydym yn cydnabod mai prifysgol y rhanbarth yw ein Prifysgol ni.

**2. PROFIAD EIN MYFYRWYR:**
Ein myfyrwyr yw calon ein Prifysgol a gallwn ymfalchïo yn ein henw cryf cyson am ansawdd ein profiad i fyfyrwyr, cryfder ein gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr a'n hymrwymiad i iechyd meddwl a lles myfyrwyr.

**3. EIN DYSGU A'N HADDYSGU:**
Mae rhannu gwybodaeth er mwyn meithrin sgiliau meddwl yn annibynnol ac yn feirniadol yn elfen sylfaenol o'n diben. Mae'n galluogi ein myfyrwyr i fod yn gadarn yn wyneb heriau byd-eang ac i addasu i fyd gwaith newidiol. Rydym yn dathlu ein treftadaeth Gymraeg ac yn falch o fod yn rhan o genedl ddwyieithog

**4. EIN HYMCHWIL:**
Mae ein hymchwil yn newid bywydau, yn ysgogi arloesi a thwf rhanbarthol ac mae'n cydweddu â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae'n effeithio ar ein diwylliant, ein cymdeithas, ein hiechyd, ein lles, ein heconomi a'n planed.

**5. EIN MENTERGARWCH:**
Rydym yn brifysgol hynod gydweithredol ac entrepreneuraidd. Cawsom ein sefydlu gan ddiwydiant, ar gyfer diwydiant, ac rydym yn parhau'n ffyddlon i uchelgeisiau ein sefydlwyr, drwy weithio gyda phartneriaid diwydiannol, masnachol ac yn y sector cyhoeddus er budd ein rhanbarth a'n cenedl.

*Nodir pob un o'r meysydd hyn gan ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth, gweithredu â chyfrifoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol, ymdrechu i gyflawni rhagoriaeth a chynnal meddylfryd byd-eang sydd yn ein galluogi i fod yn Brifysgol gymunedol â chyrhaeddiad ac enw rhyngwladol.*

Gweler ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas llawn ar-lein

# TEACHING EXCELLENCE

Rydym yn sefydliad uchelgeisiol sy'n darparu amgylchedd academaidd rhagorol a chytbwys gan alluogi myfyrwyr a chydweithwyr i ragori.

Mae ein hymrwymiad at amrywiaeth, ar y cyd â'n gallu i dderbyn myfyrwyr sydd â thariffau mynediad isel, yn ogystal â chyflawni lefelau cyflogadwyedd graddedigion sy'n arwain y sector, yn dangos pa mor werthfawr yw profiad cyfoethog y myfyrwyr ac ansawdd yr addysgu. Mae ein Prifysgol yn un o sefydliadau addysg uwch blaenllaw'r DU am gynnydd dysgu, ac mae cyflogaeth graddedigion wrth wraidd ein darpariaeth.

Mae staff yn Abertawe wedi ymrwymo i ddatblygu'n broffesiynol, gan gynnig dysgu ysbrydoledig a thrawsnewidiol, sydd ar flaen y gad o ran gweithgareddau addysgu. Mae ein cymuned Academaidd yn cynnwys unigolion sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth unigol am yr hyn a gyflawnwyd ganddynt, megis; BMA Cymru Wales/BMJ Athro Clinigol y Flwyddyn; Enillydd gwobr Arloesi WISE; Achubwyr Bywyd y Genedl – 100 unigolyn gorau; Cymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol Advance HE; a llawer mwy.

Caiff ein cydweithwyr addysgu gefnogaeth gan Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT), sy'n gartref i adnoddau a chymorth ar gyfer pob gweithgaredd i wella dysgu ac addysgu.

Yn ogystal, mae gennym nifer o academïau a gwasanaethau unigryw, sy'n manteisio ar ein henw da o ran ymchwil a phartneriaethau diwydiannol i gefnogi ein cynigion dysgu ac addysgu o'r radd flaenaf.

Mae ein Hacademi Iechyd a Llesiant, o'r radd flaenaf, yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr weithio gydag ymarferwyr tra chymwys mewn amgylchedd proffesiynol, hamddenol a chyfeillgar. Mae'r academi yn cefnogi iechyd a lles pobl yn y rhanbarth lleol ac, yn 2018, fe'i cydnabuwyd am yr hyn y mae wedi ei gyflawni, gan ennill categori Effaith Gymdeithasol a Chymunedol yng Ngwobrau Prifysgolion y Guardian.

Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe (SEA), mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, yn cynnig cyllid ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr a arweinir gan fyfyrwyr. Mae SEA yn galluogi myfyrwyr i gymryd yr awenau yn eu mentrau eu hunain, gan sicrhau bod dysgu a phrofiad yn digwydd ar yr un pryd a chan arwain at gyfleoedd gyrfa llwyddiannus i raddedigion.

Mae ein holl academïau yn canolbwyntio ar gyfoethogi rhagoriaeth dysgu ac addysgu, â'r nod o fwyafu'r buddion nid yn unig ar gyfer ein myfyrwyr a'n cydweithwyr, ond ar gyfer y gymuned ehangach hefyd.




School of Management, Bay Campus

# RHAGORIAETH YMCHWIL

Fel prifysgol sydd â phwyslais mawr ar ymchwil, mae Prifysgol Abertawe'n parhau i ragori drwy ymchwil sy'n cael effaith yn y byd go iawn.

Cyflwynwyd gwaith y nifer uchaf erioed o ymchwilwyr (578) i'w asesu yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021, sy'n gynnydd o 56% ar y 370 a gyflwynwyd yn 2014. Felly, rydym yn falch iawn ein bod wedi cynyddu ein cyfran gyffredinol o ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang ac sy'n rhagorol yn rhyngwladol o 80% yn 2014 i 86% yn 2021. Mae hyn yn ardystiad wirioneddol iawn i ymroddiad a gwaith caled cynifer o gydweithwyr ar draws cymuned ein Prifysgol dros gyfnod yr REF.

Rydym yn ymroddedig i ymchwil â manteision i'r byd go iawn, boed wrth ddal carbon deuocsid i greu plastig gwyrddach, neu adeiladu tai sy'n gweithredu fel gorsafoedd pŵer, i adfywio a thrawsnewid tirweddau diwydiannol neu ddeall anghenion a dyheadau poblogaeth sy'n heneiddio yn well.

**1090**

**O YMCHWILWYR ARLOESOL**

**91%**

AMGYLCHEDD YMCHWIL Y BARNWYD EI FOD **'O'R RADD FLAENAF'** NEU'N **'RHYNGWLADOL RAGOROL'**

(REF 2021)

**YMYSG Y 400**

**SAFLE GORAU YN YN NHABLAU BYD-EANG QS**

**578**

CYFLWYNWYD GWAITH 578 O YMCHWILWYR I'W ASESU

(REF 2021)



*"Drwy ddarparu rhagoriaeth yn ein hamgylchedd ymchwil, mae busnes a rheolaeth ym Mhrifysgol Abertawe'n parhau i fynd o nerth i nerth. Mae hyn yn amlwg yn yr enillion sylweddol rydym wedi'u gwneud mewn allbynnau ymchwil y dyfarnwyd eu bod yn arwain y ffordd yn fyd-eang, a hefyd yn y twf yn ein hincwm ymchwil a'r myfyrwyr sy'n cwblhau PhD."*

**Yr Athro Paul Jones, Pennaeth yr Ysgol Reolaeth**

# ARLOESEDD A MENTERGARWCH

Sefydlwyd Prifysgol Abertawe gan ddiwydiant ym 1920 i gyflawni er lles diwydiant. Dros ganrif yn ddiweddarach, mae gennym o hyd gysylltiadau o fri â phartneriaid masnachol a diwydiannol ar draws amrywiaeth o sectorau.

Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo a chefnogi Gwaith cydweithredolsy'n arwain at arloesi. Rydym yn ymfalchïo yn y mentrau arobryn sy'n deillio o'n Prifysgol, ac yn gweithio'n rhagweithiol gyda hi. Ar hyn o bryd, mae gennym:

- 40+ cwmni wedi'u cydleoli ar ein campysau;
- 30+ menter ddeilio ar Gampws y Bae
- £80m mewn incwm ymchwil HEBCI gydweithredol– ein swm uchaf erioed a chynnydd o £6m ers 2021

Rydym yn gwrando ar anghenion busnes ac rydym wedi datblygu cydweithrediadau strategol effeithiol sy'n fuddiol i'r ddwy ochr, gan helpu i;

- oresgyn heriau diwydiant a darganfod cyfleoedd newydd
- darparu mynediad i ddoniau ar gyfer diwydiant a sgiliau y bydd galw mawr amdanynt yn y dyfodol i'r myfyrwyr
- darparu cyfleoedd masnachol megis cydleoli canolfannau blaenllaw diwydiant.

I gydnabod pwysigrwydd ein Prifysgol i Ddinas-ranbarth Bae Abertawe, ac ar y cyd â Chyngor Abertawe, rydym wedi addo creu mwy o swyddi, gwella addysg a pharhau I hyrwyddo diwylliant o fentergarwch ac arloesedd.

Mae gennym nifer o bartneriaethau arwyddocaol, hirdymor â diwydiant, gan amrywio o TATA a Rolls Royce i'r DVLA a SKY.

### Y FARGEN DDINESIG

Mae prosiect Campysau Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sy'n werth £132 miliwn, wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Ar ôl sicrhau £15 miliwn i ddatblygu safleoedd yn Nhreforys a Singleton, bydd y prosiect hwn yn hybu arloesedd a thwf busnes yn y sectorau Technoleg Feddygol a Thechnoleg Chwaraeon sy'n ehangu.

Mae'r prosiect hwn dan arweiniad Prifysgol Abertawe, mewn partneriaeth â Chyngor Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Partneriaeth y Cydweithrediad Rhanbarthol dros Iechyd (ARCH) a phartneriaid allweddol yn y sector preifat. Y bwriad yw creu dros 1,000 o swyddi yn ardal Abertawe a bydd yn werth dros £150 miliwn i'r economi ranbarthol erbyn 2033.

# DINAS ABERTAWE

Mae Abertawe, dinas lan-môr Cymru, yn ddinas forwrol fywiog a llawn bywyd gyda phoblogaeth amrywiol o 240,000. Mae hi'n lle hardd a chosmopolitaidd, ac mae'n cynnig ansawdd bywyd rhagorol.

A hithau'n 'Ddinas Hawliau Dynol' gyntaf Cymru, mae'n ddinas ddathlu lewyrchus. Dros y blynyddoedd, mae wedi dod yn lle cynyddol amrywiol a chynhwysol i fyw a gweithio ynddo. Mae'n falch o fod yn gartref i bobl a diwylliannau o bob cwr o'r byd wrth galon canol y ddinas, ac mae hynny i'w weld yn ei bwyd, ei gwyliau, a'i bywyd diwylliannol a chymunedol.

Mae gan Abertawe, a'r rhanbarthau cyfagos yn ne Cymru, synnwyr cryf o le, sy'n gwneud i bobl deimlo'n gartrefol, tra'n meddu ar gysylltiadau uniongyrchol â Llundain a Manceinion a Chaerdydd. Mae'n llwyddo i gynnig cychwyn da i blant trwy ei sefydliadau addysgol yn ogystal â chyfleoedd hamdden. Mae'n annog pobl i ddysgu'n llwyddiannus, gan roi cyfleoedd i bawb elwa o le da i fyw a gweithio.

Mae'r ddinas yn parhau i esblygu'n gyflym, a ffactor allweddol hyn yw Bargen Ddinesig Bae Abertawe; buddsoddiad gwerth £1.3 biliwn a sicrhawyd gan Ddinas-ranbarth Bae Abertawe ar gyfer 11 prosiect ar draws Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Tafliad carreg i ffwrdd yn unig, ceir pentref y Mwmbwls, a oedd yn gyrchfan gwyliau poblogaidd yn oes Fictoria. Mae'r pentref, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel 'Porth Gŵyr, yn cynnig dewis gwych o atyniadau, gan gynnwys pier, siopau dillad traddodiadol, siopau crefftau a chaffis hufen iâ. Mae Penrhyn Gŵyr – a ddynodwyd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf Prydain – yn ymestyn i'r gorllewin o'r Mwmbwls, gan gynnig cyfres o dirweddau arfordirol a gwledig hyfryd.

I'r dwyrain, mae 'Gwlad y Sgydau' yn Afan a Chwm Nedd yn hafan i gerddwyr a beicwyr fel ei gilydd. Wrth deithio i'r gorllewin, byddwch yn cyrraedd yr unig barc cenedlaethol arfordirol ym Mhrydain: Sir Benfro. Mae Abertawe yn elwa hefyd o fod yn agos at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sydd awr yn unig o daith o'r ddinas.














Swansea University
Prifysgol Abertawe

# CYFADRAN Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL

*A'R YSGOL REOLAETH*

# CYFADRAN Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL



Campws y Bae

Mae ein cyfadran yn gartref i gymuned groesawgar a chynhwysol sy’n ceisio cyflawni ysgolheictod, ymchwil a gwaith arloesol sydd o fudd i’r gymdeithas, ac sy’n hyrwyddo profiad myfyrwyr sy’n galluogi ein myfyrwyr i fod yn ddinasyddion byd-eang tra medrus sy’n ymwybodol yn gymdeithasol.

Rydym ni’n gwneud cyfraniad sylweddol i waith cenhadaeth ddiwylliannol a dinesig y Brifysgol, ac rydym ni’n ymrwymedig i hyrwyddo ein hiaith a’n diwylliant Cymreig.

## Ysgolion

**YR YSGOL DIWYLLIANT A CHYFATHREBU**
Mae'n cyfrannu at waith cenhadaeth ddiwylliannol a dinesig ein prifysgol, ac mae'n cynnig ystod amrywiol o raglenni, sydd wedi'u cynllunio i alluogi ein myfyrwyr i ddod yn ddinasyddion medrus, cymdeithasol ymwybodol, byd-eang. Mae'r Ysgol yn cefnogi myfyrwyr i gael profiad ymarferol yn eu maes astudio.

**YR YSGOL REOLAETH**
Un o brif ddarparwyr addysg rheoli,  cyfrifeg a chyllid yn y DU. Gweledigaeth yr Ysgol yw gwneud gwahaniaeth i'r gymdeithas a'r economi yn lleol ac yn fyd-eang trwy ragoriaeth mewn addysgu a arweinir gan ymchwil.

**YSGOL Y GYFRAITH HILLARY RODHAM CLINTON**
Mae ganddi enw da yn rhyngwladol ac mae’n paratoi myfyrwyr ar gyfer gyrfaoedd amrywiol sy'n gwneud gwahaniaeth i'r gymdeithas. Mae canolfannau arbenigol yn cynnwys Hawliau Dynol Plant i Seiberderfysgaeth a ThechGyfreithiol.

**YSGOL Y GWYDDORAU CYMDEITHASOL**
Mae'r Ysgol, sy'n cwmpasu troseddeg, cymdeithaseg a pholisi cymdeithasol, economeg, addysg ac astudiaethau plentyndod, a gwleidyddiaeth, athroniaeth a chysylltiadau rhyngwladol, yn darparu addysg drwy archwilio theori ac ennyn diddordeb mewn cyfleoedd ymarferol yn y byd gwaith.

# YSGOL REOLAETH

Mae Ysgol Reolaeth Prifysgol Abertawe yn un o'r darparwyr mwyaf blaenllaw yn y DU ym meysydd addysg rheolaeth, cyllid, economeg, cyfrifo, marchnata a thwristiaeth. Mae gennym gofnod ardderchog o gynhyrchu rhai o raddedigion mwyaf llwyddiannus y wlad, ac mae hyn, ar y cyd â staff arloesol sy'n arwain y ffordd yn fyd eang, cyfleusterau modern a chysylltiadau agos â diwydiant, yn ei gwneud yn rhywle gwirioneddol arbennig i fyw ac astudio.

**AMGYLCHEDD**

Mae'r Ysgol, sydd yng nghanol campws trawiadol y Bae, dafliad carreg o'r traeth a hanner milltir o goridor traffordd yr M4; yn gartref i dros 200 o staff a mwy na 2,000 o fyfyrwyr. Mae myfyrwyr yn gallu manteisio ar amgylchedd dysgu rhagorol oherwydd bod gennym gyfleusterau o safon fyd-eang ac Atriwm cymunedol trawiadol, ystafelloedd addysgu, ystafelloedd cyfarfod a labordai cyfrifiadurol. Ein nod yw darparu gweithle cynhwysol ac rydym yn falch o ddal gwobr Efydd Siarter Athena SWAN am ein hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau.

**UCHELGAIS**

Ein nod yw cynnig addysg o safon fyd-eang drwy gydweithio, arloesi a meddwl o'r newydd, ac rydym yn ymfalchïo yn ein gallu i gynnig profiad rhagorol i fyfyrwyr. Trwy ein gweithgareddau menter ac arloesi, mae gennym gysylltiadau cryf â busnesau ac mae'r rhain yn gwella profiad dysgu ein myfyrwyr a hefyd yn cael effaith ar yr economi leol a byd-eang.

**CYFLE**

Mae'r Ysgol Reolaeth yn dyheu am gael ei hadnabod ledled y byd yn ganolfan ar gyfer rhagoriaeth addysgol, ac rydym yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r heriau lleol a byd-eang mwyaf sylweddol – yn bennaf ym meysydd iechyd a lles, cymdeithas ddigidol ac economïau cynaliadwy. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag adrannau eraill ym Mhrifysgol Abertawe a sefydliadau allanol I greu rhaglenni sy'n adlewyrchu'r sgiliau angenrheidiol gan weithle sy'n esblygu; gan ein galluogi ni i greu graddedigion sy'n barod ar gyfer y gweithle.

***Byddwch yn rhan o stori lwyddiant yr Ysgol Reolaeth***



CYFADRAN Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL

HYNT GRADDEDIGION

**90%** **O RADDEDIGION YN GWEITHIO, YN ASTUDIO A/NEU'N YMGYMRYD Â GWEITHGAREDDAU ERAILL MEGIS TEITHIO**

15 MIS AR ÔL GADAEL PRIFYSGOL ABERTAWE

(HESA 2022)

**Cyfansoddiad Staff (ysgol)**

**HIL:**

**25%** O GYDWEITHWYR O LEIAFRIFOEDD ETHNIG

**RHYW:**

**52%** SY'N FENYWOD

**48%** SY'N DDYNION

AACSB Business Education Alliance Member

ECU GENDER CHARTER Athena SWAN Bronze Award

**Ysgol reolaeth**

# STRWYTHUR Y BRIFYSGOL

## UWCH-DÎM ARWEINYDDIAETH

Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol; y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddorau Bywyd; y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg a chaiff ei harwain gan Uwch-dîm Arweinyddiaeth sy'n cynnwys:

| | |
|---|---|
| **Is-ganghellor** | Yr Athro Paul Boyle |
| **Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu** | Mrs Niamh Lamond |
| **Dirprwy Is-ganghellor (Addysg)** | Yr Athro Deborah Youngs |
| **Dirprwy Is-ganghellor (Rhyngwladol)** | Yr Athro Judith Lamie |
| **Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi)** | Yr Athro Helen Griffiths |
| **Dirprwy Is-ganghellor (Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol)** | Yr Athro Elwen Evans KC |
| **Dirprwy Is-ganghellor (Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd)** | Yr Athro Keith Lloyd |
| **Dirprwy Is-ganghellor (Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg)** | Yr Athro David Smith |
| **Prif Swyddog Ariannol** | Mrs Sarah Jones |

## GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Mae Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Proffesiynol yn cefnogi gwaith ein Prifysgol maent yn gyfrifol am sicrhau gwasanaethau proffesiynol effeithiol ac effeithlon ar draws gweithgareddau ein Prifysgol.

| | |
|---|---|
| **Adnoddau Dynol** | Mrs Sian Cushion |
| **Gwasanaethau Academaidd** | Mr Adrian Novis |
| **Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau** | Mr Paul Westmore |
| **Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi** | Mr Ceri Jones |
| **Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladol** | Mrs Rebecca Lever |
| **Swyddfa'r Is-ganghellor** | Ms Louise Woollard |
| **Ystadau a Rheoli Cyfleusterau** | Mr Greg Ducie |
| **Yr Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol** | Mr Andrew Jones / Miss Louisa Parry |



# POBL, DIWYLLIANT A BUDDION

*SEFYDLIAD CYNHWYSOL*

# CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT




Ein pobl yw ein hased pwysicaf ac maent yn diffinio ein Prifysgol. Rydym yn sefydliad egwyddorol. Rydym yn deall bod ein hymddygiad beunyddiol yn bwysig; mae gennym ffydd yn ein gilydd, rydym yn ein cefnogi ein gilydd, rydym yn dathlu cyflawniadau ein gilydd ac yn dwyn ein gilydd i gyfrif. Rydym yn parchu ein cydweithwyr ac yn trin eraill fel byddem yn disgwyl iddynt ein trin ni, ac rydym yn gweithio fel un brifysgol, gan gydnabod bod pob cydweithiwr yn cyfrannu at ein llwyddiant.

Rydym yn gwerthfawrogi pobl am eu sgiliau waeth beth fo'u cefndir.

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, i bawb ac rydym yn falch o fod wedi cael ein cydnabod gan ein myfyrwyr am hyn. Mae tystiolaeth i'w gweld yn ein gwobr arian ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant yng ngwobrau WhatUni 2021.

Rydym yn falch o fod yn:

- Gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol Achrededig
- Aelod Siarter Athena SWAN
- Aelod Cyflogwyr i Ofalwyr
- Aelod Siarter Cydraddoldeb Hiliol
- Un o 100 cyflogwr gorau Stonewall
- Aelod Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr




Hate Crime Charter

Stonewall LGBTQ+ INCLUSIVE EMPLOYER GOLD AWARD 2023

Race Equality Charter

eC wales employers for carers

[I gael rhagor o wybodaeth: Tudalennau gwe Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant]

# MANTEISION GWEITHIO YM MHRIFYSGOL ABERTAWE

Rydym yn darparu amgylchedd gwaith rhagorol, lle nad oes lle i wahaniaethu annheg ac sy'n cael ei gefnogi gan ein cymunedau campws cyfeillgar a chroesawgar.

Rydym ni wir yn gwerthfawrogi ein cydweithwyr ac rydym ni'n falch o fod yn gyflogwr achrededig cyflog byw gwirioneddol.


Cefnogir ein cydweithwyr addysgu gan Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT), sy'n cynnig adnoddau a chymorth ar gyfer pob gweithgaredd i wella dysgu ac addysgu.

Mae tîm ymroddedig y Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi (REIS) yn gweithio ar y ddau gampws er mwyn cefnogi cylch bywyd cyfan syniadau ymchwil, o sicrhau grantiau i reoli prosiect, masnacheiddio ymchwil a datblygu.

Caiff cydweithwyr fanteisio hefyd ar gyfleusterau o'r radd flaenaf ein Hacademi Iechyd a Llesiant, sy'n cynnig cyfleoedd i unigolion gael eu trin gan ymarferwyr cymwysedig iawn, mewn amgylchedd proffesiynol, cartrefol a chyfeillgar, gan hefyd ddarparu hyfforddiant i'n myfyrwyr.

Rydym ni'n gwybod bod gan bobl ymrwymiadau y tu allan i'w swyddi. Ein nod ni yw helpu cydweithwyr i gyflawni'r cydbwysedd iawn rhwng gwaith a bywyd iddyn nhw. Mae gennym ni amrywiaeth o fanteision – o bolisïau sy'n addas i deuluoedd, i weithio ystwyth a mentrau lles, gostyngiadau ac arbedion a mwy! – oll yn cael eu cefnogi gan wasanaethau ein hadran AD arobryn a'n timau Iechyd a Lles.

Tudalennau Manteision gweithio yn Abertawe.



# AMSER CYFFROUS I YMUNO Â PHRIFYSGOL ABERTAWE

Mae Prifysgol Abertawe wedi bod yn gwneud gwahaniaeth ers 1920. Dros gan mlynedd yn ddiweddarach, rydym yn parhau i ragori a thyfu gyda phwrpas ac uniondeb. Mae ein campysau glan môr trawiadol yn ein gwneud ni'n lleoliad dymunol ar gyfer myfyrwyr a staff o bedwar ban byd, ac mae ein cymuned amlddiwylliannol yn cynnig safbwynt byd-eang, gan alluogi'r rhai hynny sy'n ymuno â ni i ddatblygu sgiliau, a chyfoethogi eu gyrfaoedd.

Ymunwch â ni, a helpu i lunio ein canrif nesaf o arloesi a rhagoriaeth.

